

Dull rheoleiddio

Mae ein dull rheoleiddio yn nodi'r ffordd yr ydym ni'n gwneud penderfyniadau ynghylch holl waith yr Asiantaeth. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriadau, datblygu polisiau yn gyflym, rhyddid gwybodaeth a sut rydym ni'n trin datgeliadau.

Mae gennym amcan statudol i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Fodd bynnag, mae rheoliadau gormodol neu aneglur yn rhoi baich diangen ar fusnes, a grwpiau eraill, ac felly yn llesteirio'r broses o gyflawni'r manteision a fwriadwyd yn effeithiol.

Rydym yn ymdrechu i fod yn rheoleiddiwr teg ac effeithiol, yn gymesur a blaengar yn ein dull rheoleiddio gyda ffocws ar gyflawni'r canlyniadau rydym ni am eu gweld.

Ein haddewid yw rhoi defnyddwyr yn gyntaf ym mhopeth a wnawn, fel bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, fod gennym fynediad at ddeiet iach fforddiadwy, a'n bod yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am yr hyn rydym ni'n ei fwyta, nawr ac yn y dyfodol.

Mae ein [Cynllun Strategol 2015-2020 - Bwyd y gallwn ymddiried ynddo](#) yn nodi ein blaenoriaethau a dulliau arfaethedig i gyflawni ein canlyniadau strategol gan gynnwys ein hegwyddorion gwaith.

Rheoleiddio ein dyfodol

Mae Rheoleiddio ein dyfodol yn rhaglen o newid rydym ni'n ei harwain i wella'r ffordd rydym ni'n cyflawni rheolaethau rheoleiddio ar gyfer bwyd i greu system fodern, gymesur, cadarn a gwydn sy'n seiliedig ar risg. Mae'r rhaglen yn cael ei datblygu drwy ymgysylltu'n agos gyda busnesau, defnyddwyr a'n partneriaid cyflenwi.

Dysgu mwy am raglen [Rheoleiddio Ein Dyfodol](#).

Ymgysylltu ac ymgynghori

Mae ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid yn hanfodol i'r hyn rydym ni'n ei wneud a ffordd yr ydym ni'n datblygu ein dull rheoleiddio. Gallwch helpu i lywio'r ffordd mae cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei rhoi ar waith yn y Deyrnas Unedig (DU) drwy roi eich barn a darparu tystiolaeth er mwyn helpu i lywio ein prosesau gwneud penderfyniadau.

Cael mwy o [wybodaeth am ymgynghoriadau](#) neu ddod o hyd i'r ymgynghoriadau diweddaraf.

Asesiadau effaith

Mae [Asesiad Effaith](#) yn offeryn polisi i asesu effeithiau opsiynau sy'n cael eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys costau a manteision disgwylidig yn erbyn rhesymeg y Llywodraeth dros ymyrryd. Mae deall costau, manteision, a risgiau unrhyw fesur neu gynnig newydd yn hanfodol i wneud polisi da.

Adrodd ar Darged Effaith Busnes

Mae Targed Effaith Busnes (BIT) y Llywodraeth yn ymwneud ag effaith economaidd rheoliadau ar fusnes.

Mae gofyn i ni roi gwybod am fesurau cymwys sy'n dod i rym yn ystod y cyfnod adrodd yn unol â [Deddf Bach, Menter a Chyflogaeth 2015](#) a [Deddf Menter 2016](#).

Darpariaethau rheoleiddio cymhwys 2018-2019

Rhwng 21 Mehefin 2018 a 20 Mehefin 2019 ni wnaethom gyflwyno unrhyw ddarpariaethau rheoleiddio cymwys o dan y BIT.

Darpariaethau rheoleiddio anghymwys 2018-2019

[View Summary report of the FSA non-qualifying regulatory provisions: 2018 to 2019 as PDF](#)
(459.42 KB)

Darpariaethau rheoleiddio cymhwys 2018-2019

Rhwng 9 Mehefin 2017 a 20 Mehefin 2018 ni wnaethom gyflwyno unrhyw ddarpariaethau rheoleiddio cymwys o dan y BIT.

Darpariaethau rheoleiddio anghymwys 2018-2019

[View Summary report of the FSA non-qualifying regulatory provisions: 2017 to 2018 as PDF](#)
(163.46 KB)

Cod y Rheoleiddwyr

Rydym yn dilyn [Cod y Rheoleiddwyr](#) sy'n darparu fframwaith clir a hyblyg, yn seiliedig ar egwyddorion ar gyfer sut y dylai rheoleiddwyr ymgysylltu gyda'r rhai hynny maen nhw'n eu rheoleiddio.

Er ein bod yn ceisio bod yn rheoleiddiwr gwych, atebol a modern, rydym yn derbyn na fydd eraill bob amser yn cytuno â'n dull. Mae'r canlynol yn nodi'r safonau y dylech eu disgwyl gan yr ASB a sut y gallwch gwyno os nad ydym yn llwyddo i gyflawni hyn.

[Safonau gwasanaeth](#) – p'un a ydych yn ddefnyddiwr neu'n fusnes, rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth defnyddiol, cwrtais ac effeithlon i chi fel sydd wedi'i nodi yn ein datganiad o safonau gwasanaeth.

[Cwynion a sylwadau](#) – mae derbyn sylwadau ac ymateb i gwynion yn bwysig i ni a byddwn bob amser yn ceisio datrys unrhyw broblem yn gyflym, ac egluro beth rydym wedi'i wneud a pham.